Working for
Equality
in Wales

# Templed Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhan 1

| | |
|---|---|
| **Teitl y polisi a’i ddiben (amlinelliad cryno):** | **‘Ein Cymoedd, Ein Dyfodol’**<br><br>**Cynllun lefel uchel i fod yn sail i waith y Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd a chefnogi’r gwaith o adfywio'r cymoedd o ran cyflogaeth, sgiliau, addysg, iechyd, seilwaith, yr amgylchedd, diwylliant a lles.** |
| **Enw’r swyddog:** | **Laura Evans**<br><br>**Nathan Cook** |
| **Adran:** | **Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant**<br><br>**Tîm Trafod y Cymoedd** |
| **Dyddiad:** | **16 Mehefin 2017**<br><br>**Adolygwyd 25 Medi 2017** |
| **Llofnod:** | **L Evans**<br><br>**N Cook** |

1. **Rhowch ddisgrifiad cryno o'r polisi/penderfyniad.**

   **Er enghraifft, beth yw amcan cyffredinol y polisi/penderfyniad, beth yw'r nodau a bennwyd (yn cynnwys pwy yw'r buddiolwyr arfaethedig), disgrifiad bras o sut y cyflawnir hyn, beth fydd yn mesur llwyddiant, a'r amserlen ar gyfer cyflawni hyn?**

Sefydlwyd y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd De Cymru a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2016 fel ymateb i Ymrwymiad Maniffesto yn dilyn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol a refferendwm yr UE. Caiff ei gadeirio gan Alun Davies, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes Llywodraeth Cymru. Mae Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith a Julie James, y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth hefyd yn aelodau o'r tasglu. Mae'r tasglu'n cynnwys amrywiaeth o arbenigwyr hefyd o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector sydd wedi cael eu dewis nid yn unig am eu harbenigedd mewn gwahanol feysydd, ond hefyd am eu bod naill ai'n byw neu'n gweithio yn y Cymoedd.

Mae 'Ein Cymoedd, Ein Dyfodol' yn cyflwyno blaenoriaethau lefel uchel y tasglu sy'n berthnasol i bob ardal ar draws y Cymoedd yn ein barn ni. Mae hyn yn cynnwys swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni, gwell gwasanaethau cyhoeddus a lles personol a chymunedol - fy nghymuned leol. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi cael eu datblygu:

- mewn ymateb i'r hyn a ddywedwyd wrthym yn ystod sesiynau ymgysylltu. Mae adroddiad annibynnol wedi'i gynhyrchu am y gweithgarwch ymgysylltu hyd yma.
- yn seiliedig ar dystiolaeth berthnasol megis y Cynlluniau Lles ar gyfer awdurdodau lleol y Cymoedd – mae adroddiad tystiolaeth wedi'i gynhyrchu.
- yng nghyd-destun nifer o strategaethau cysylltiedig eraill o eiddo'r llywodraeth, fel y Strategaeth Cyflogadwyedd a Symud Cymru Ymlaen.

Mae cynllun gweithredu mwy manwl wedi'i gynhyrchu a'i gyhoeddi yn Tachwedd 2017. Mae hyn yn cynnwys manylion am sut a phryd y byddwn yn rhoi camau gweithredu Ein Cymoedd, Ein Dyfodol ar waith, ac yn nodi pa bartneriaid a fydd yn ymwneud â'r gwaith hefyd. Buom yn profi'r blaenoriaethau lefel uchel drwy ail gam o ymgysylltu

yn ystod yr haf a dechrau'r hydref 2017. Byddwn yn ymgysylltu eto ar ôl cyhoeddi'r Cynllun Cyflawni.

Defnyddir y dangosyddion cenedlaethol priodol i ystyried perfformiad y Cymoedd o'i gymharu â gweddill Cymru yn ystod oes y tasglu. Cyhoeddir dadansoddiad manwl bob blwyddyn er mwyn ystyried cynnydd ar lefel poblogaeth. Fodd bynnag, oherwydd oedi o ran data, rhaid nodi na fydd hyn yn creu darlun dynamig o gynnydd, ond bydd yn ceisio mesur newid tymor canolig a hirdymor. Yn ystod oes y tasglu (hyd at 2021) cyhoeddir diweddariadau a monitro blynyddol yn erbyn targedau cyraeddadwy allweddol, gan gynnwys y targed i sicrhau bod y 7000 o bobl economaidd anweithgar a di-waith yn cael swyddi.

2. **Mae dyletswydd gyfreithiol arnom i ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gweler Atodiad A o'r canllawiau ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) y nodir eu bod yn berthnasol i'r polisi. Pa gamau a roddwyd ar waith gennych i ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn fewnol ac yn allanol?**

O'r cychwyn cyntaf roedd y tasglu'n glir mai ymgysylltu â chymunedau'r cymoedd ddylai sbarduno unrhyw flaenoriaethau neu gynlluniau dilynol. Rhoddodd y tasglu gyfarwyddyd clir y byddai'r gwaith hwn yn broses gydweithredol rhwng Llywodraeth Cymru, y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector, ond yn bwysicach, gyda'r cymunedau y bwriadwyd i'r fenter hon eu gwasanaethu.

Gyda hynny mewn golwg, aethom ati i gynnal rhaglen o ymgysylltu trylwyr gyda chymunedau ar draws y Cymoedd a rhanddeiliaid ehangach.

Trefnwyd cyfres o sesiynau thematig gyda'r diben o gael gwybod beth oedd y prif broblemau, heriau a rhwystrau i wahanol grwpiau. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau gyda phobl ifanc, athrawon, rhieni, rhieni sy'n defnyddio lleoliadau Dechrau'n Deg a thenantiaid cymdeithasau tai gyda ffocws cryf ar bobl hŷn a'r rhai sydd â phroblemau mynediad. Fe wnaethom gynnal sesiynau gyda busnesau a chyflogwyr, darparwyr addysg uwch a grwpiau anabledd hefyd.

Sicrhawyd pawb a fynychodd y byddai unrhyw ofynion o ran mynediad neu iaith yn cael eu diwallu. Roedd pob lleoliad yn hygyrch a chynhaliwyd rhai cyfarfodydd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynhaliwyd cyfres o sesiynau ymgysylltu agored min nos gyda'r cyhoedd ledled y Cymoedd, i alluogi pobl â chyfrifoldebau gofalu, ymrwymiadau gwaith neu addysg i fynd iddynt. Cyhoeddwyd y gwahoddiadau/hysbysebion ar gyfer y cyfarfodydd mewn fformatau amrywiol er mwyn bod yn gynhwysol. Roedd hyn yn cynnwys negeseuon e-bost, facebook a twitter, ond hefyd cyfathrebu ffisegol â'r cymunedau a gosod posteri yn y cymunedau perthnasol.

Fe wnaethom ddefnyddio rhwydweithiau cymunedol presennol i roi cyhoeddusrwydd i'r digwyddiadau i holl aelodau amrywiol y gymuned, gan gynnwys pobl ifanc, pobl hŷn, grwpiau anabl, rhieni, gofalwyr a grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Fodd bynnag, cyn belled ag y gall y wybodaeth sydd gennym ei dangos, prin oedd y rhai a fynychodd y cyfarfodydd cyhoeddus o’r cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol. Mae'n anodd cadarnhau a mesur y dybiaeth hon gan na wnaethom ofyn i bobl roi gwybod i ni am y nodweddion hyn wrth gofrestru. Mae’n anodd gwybod hefyd faint o bobl ag anableddau gwahanol oedd yn bresennol, er na wnaeth neb ddweud eu bod angen anghenion cymorth ychwanegol fel BSL neu Braille.

Er mwyn sicrhau bod rhai o'r bylchau demograffig a nodir uchod yn cael eu llenwi, fe wnaethom gyflogi cwmni ymchwil annibynnol i gynnal cyfres o grwpiau ffocws wedi’u targedu. Dewiswyd cyfranogwyr ar gyfer y 12 grŵp ffocws yn benodol i sicrhau bod croestoriad yn cymryd rhan ac roeddynt yn cynnwys dynion, menywod, pobl ifanc, pobl hŷn, grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, gweithwyr cyflogedig amser llawn a rhan-amser, pobl ddi-waith, graddedigion a phobl nad ydynt yn raddedigion, rhieni sengl a phobl ag anableddau. Fel yn achos y cyfarfodydd cyhoeddus roedd yn fwy anodd sicrhau cyfranogiad grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (gan gynnwys ffoaduriaid a Sipsiwn a Theithwyr) a rhai o wahanol ffydd, felly rydym wedi nodi hwn fel maes ffocws penodol ar gyfer y cam nesaf o ymgysylltu ac rydym wedi trafod dulliau posib gyda chydweithwyr cydraddoldeb. Er i bob ymdrech gael ei gwneud i ymgysylltu â phobl ag amrywiaeth o anableddau, mae hwn hefyd yn faes y bydd angen i ni edrych arno eto yn ystod cam nesaf yr ymgysylltu.

Cyhoeddwyd arolwg ar-lein gyda'r bwriad o gynnal gwaith ‘ymgysylltu mwy traddodiadol’ ond hefyd i alluogi pobl oedd yn methu â chymryd rhan mewn cyfarfodydd cyhoeddus i roi eu barn i ni mewn amgylchedd diogel. Cafodd geiriad yr arolwg ei wirio o safbwynt ei synnwyr i sicrhau bod y Saesneg ynddo’n glir ar gyfer hygyrchedd ac fe’i cyhoeddwyd yn ddwyieithog hefyd. Derbyniwyd tua 700 o

ymatebion gan ymatebwyr o bob math o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol ar draws ardal y Cymoedd.

Er mwyn trosi canfyddiadau'r rhaglen ymgysylltu yn flaenoriaethau, aethom ati i drefnu cyfres o weithdai gyda rhanddeiliaid o'r sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector i drafod y canfyddiadau a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i'w troi'n gamau gweithredu. Roedd y rhanddeiliaid yn cynnwys cynrychiolwyr o faes diwydiant preifat, cyflogwyr y sector cyhoeddus, darparwyr addysg, ymarferwyr gofal iechyd, darparwyr tai, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a chynrychiolwyr amrywiol o Lywodraeth Cymru. Rydym wedi ymgysylltu'n uniongyrchol hefyd â phartneriaid megis Ymddiriedolaeth y Tywysog, Plant yng Nghymru, Anabledd Cymru ac ysgolion a cholegau ar draws y cymoedd. Mae'r broses hon yn parhau ac rydym wedi nodi amrywiaeth o randdeiliaid y bydd angen i ni weithio gyda nhw dros y misoedd nesaf wrth i ni weithredu'r cynllun.

Ar y lefel uchaf, mae Cadeirydd y Tasglu, Alun Davies, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, wedi ymgysylltu â phob Gweinidog arall a holl Ysgrifenyddion y Cabinet, gan gynnwys y Prif Weinidog, ynglŷn â gwaith y tasglu er mwyn sicrhau bod cefnogaeth gan bawb yn y Llywodraeth.

Cyhoeddwyd y cynllun lefel uchel a'r cynllun cyflawni ar ffurf draddodiadol, ar ffurf copi caled ac ar-lein, fodd bynnag byddwn yn cynhyrchu fersiwn fideo cryno hefyd o'r cynllun lefel uchel. Mae'r fersiwn hwn wedi'i baratoi mewn 'Saesneg clir' gyda chymhorthion gweledol a hygyrch. Mae hwn yn ddwyieithog.

Hefyd, cynhyrchwyd fersiwn addas i bobl ifanc/hawdd ei darllen ddwyieithog o'r ddogfen a thaflen grynodeb ddwyieithog a ddosbarthwyd ledled y Cymoedd i sicrhau bod pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn gallu deall gwaith tasglu'r Cymoedd.

**3. Rhaid i chi seilio eich penderfyniadau ar dystiolaeth gadarn. Pa sail dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennych? Rhestrwch ffynhonnell y dystiolaeth e.e. Arolwg Cenedlaethol Cymru. A ystyriwch chi fod y dystiolaeth yn gryf, yn foddhaol neu'n wan ac a oes yna fylchau yn y dystiolaeth?**

Mae'r holl dystiolaeth a gasglwyd o'r digwyddiadau a amlinellir uchod wedi ei gasglu ynghyd mewn adroddiad llawn gan y cwmni ymchwil annibynnol. Defnyddiwyd y casgliadau o'r adroddiad hwn fel sail i'r cynllun lefel uchel. Yn y cynllun ei hun, rydym wedi gwahaniaethu'n glir rhwng 'yr hyn rydych wedi'i ddweud wrthym' a'r 'hyn rydym yn mynd i'w wneud', gan bwysleisio bod y gwaith hwn yn cael ei lywio gan y gymuned ac yn canolbwyntio arni. Cyhoeddwyd yr adroddiad ymgysylltu hwn law yn llaw â'r cynllun.

Hefyd, cynhyrchwyd papur tystiolaeth sy'n defnyddio tystiolaeth gyfoes amrywiol o wahanol ffynonellau gan gynnwys: Bargen Ddinesig Caerdydd a Bae Abertawe; Sefydliad Bevan, Fforwm Economaidd Castell-nedd; Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd; Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol; Consortia Addysg; Sefydliad Joseph Rowntree; Oxfam Cymru; What Works Centre for Wellbeing a Phrifysgol Caerdydd.

Diben yr ymarfer casglu tystiolaeth oedd edrych beth sydd wedi'i wneud o'r blaen yn y Cymoedd, pa ddulliau sydd wedi gweithio yn y cymoedd ac yng Nghymru (a'r hyn sydd heb weithio) a pha ddulliau sydd wedi'u defnyddio mewn ardaloedd eraill. Er enghraifft, aeth rhai o'r tîm i Glasgow i gael gwybod am fentrau sydd wedi'u datblygu yno, ac rydym wedi edrych yn fanwl ar waith y 'Northern Power House' sydd wedi ymdrin â phroblemau dad-ddiwydiannu tebyg i'r rhai yn y Cymoedd.

Aethom ati i edrych hefyd ar y gwaith mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r blaen wrth ymgynghori â chymunedau, er mwyn canfod yr hyn a ddywedwyd mewn perthynas â meysydd pwnc penodol, er enghraifft, fe wnaethom edrych ar ganlyniadau arolygon 'siarad am ofal plant', 'siarad am gymunedau', ac ymgynghoriadau gyda neu am grwpiau sy'n agored i niwed fel y rhai a wnaed mewn perthynas â thlodi plant, tai â chymorth a gwasanaethau iechyd meddwl.

Rydym wedi cael trafodaethau hefyd gyda swyddfa Comisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant am Asesiadau Llesiant awdurdodau lleol ac wedi cynnal ein dadansoddiad ein hunain ohonynt. Mae'r cynlluniau a'r cyhoeddiadau eraill, megis y crynodebau ymgynghori, yn awgrymu bod ein tystiolaeth yn gadarn, yn gywir ac yn cael ei chefnogi gan dystiolaeth amrywiol arall.

Mae'r tasglu wedi clywed gan yr arbenigwyr amrywiol a nodir uchod ac wedi ystyried pob math o dystiolaeth newydd a chyfredol er mwyn pennu'r blaenoriaethau sydd yn y cynllun. Er ein bod wedi nodi rhai meysydd/nodweddion gwarchodedig y bydd angen ymgysylltu ymhellach â nhw yn y cam nesaf, ystyrir bod y dystiolaeth a ddefnyddir yn gadarn a chryf ar y cyfan.

| |
|---|
| |

***Mae'n bwysig nodi unrhyw gyfleoedd a nodwyd gennych a allai hyrwyddo neu hybu cydraddoldeb.***

**<u>Effaith</u>**

**Cwblhewch yr adran nesaf i ddangos sut y gallai'r polisi / penderfyniad / arfer hwn effeithio (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar y grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gweler y canllawiau ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb am ragor o wybodaeth).**

**Nid yw diffyg tystiolaeth yn rheswm dros *beidio* â symud ymlaen i gynnal Asesiad. Tynnwch sylw at unrhyw fylchau a welsoch yn y dystiolaeth. Dywedwch a yw'n fwriad gennych i lenwi'r bylchau hyn, ac os felly, sut?**

**4.1 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoed?**

| Oed | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Pobl iau<br><br>(*Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed*) | X | | | Mae plant a phobl ifanc wedi bod yn cymryd rhan drwy ysgolion, lleoliadau Dechrau'n Deg, a bydd y cynllun yn cael effaith gadarnhaol er mwyn gwella ffyniant |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | yn y rhanbarth yn y dyfodol. Mae'r cynllun yn cefnogi pobl ifanc ar draws sawl mesur gwahanol megis prentisiaethau, cyrhaeddiad addysgol a mynediad at wasanaethau, gan gynnwys mannau gwyrdd a mentrau iechyd y cyhoedd. |
| Pobl 18-50 oed | X | | | Mae'r cynllun yn nodi'r angen i ymgorffori dulliau'n ymwneud â ffyniant i bawb. Mae hyn yn cynnwys asesu rhwystrau i deuluoedd a helpu i rymuso pobl ymhellach. Nod y cynllun yw creu mwy o gyfleoedd gwaith, gwell trafnidiaeth a mynediad at wasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol. |
| Pobl hŷn (50+) | X | | | Mae'r cynllun yn cydnabod y rhwystrau penodol sy'n wynebu pobl hŷn o ran hygyrchedd a manteisio ar wasanaethau yn arbennig. Mae'r gwaith ymgysylltu wedi llwyddo i gael barn pobl hŷn am eu cymunedau, mynediad at ofal iechyd a thrafnidiaeth. Nod y cynllun yw gwella mynediad at |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | wasanaethau cydgysylltiedig. |

**4.2 Oherwydd eu bod yn anabl?**

| Nam | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Nam ar y golwg | X | | | Mae'r cynllun wedi ymgysylltu â fforwm a sefydlwyd gan Anabledd Cymru a chyda phobl anabl eraill yn y grwpiau ffocws. Roedd hyn yn cynnwys archwilio mynediad a rhwystrau penodol i bobl anabl yn y Cymoedd. Gwyddom hefyd y bydd diwygio lles yn bwrw cymunedau'r Cymoedd a phobl anabl yn arbennig o galed. Bydd y cynllun yn gweithio gyda phobl anabl i annog grymuso pellach ac ystyried cefnogaeth well drwy Cymru'n Gweithio i gael mynediad at gyfleoedd gwaith a gwella mynediad a byw'n annibynnol trwy system drafnidiaeth fwy integredig a mentrau gofal iechyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | yn y gymuned. Fodd bynnag, rydym wedi nodi bod angen ymgysylltu ymhellach â phobl â nam ar y golwg, nam ar y clyw ac anableddau dysgu am eu profiadau, rhwystrau a'u hanghenion. |
| Nam ar y clyw | X | | | Fel uchod |
| Anabledd corfforol | X | | | Fel uchod |
| Anabledd dysgu | X | | | Fel uchod |
| Problem iechyd meddwl | X | | | Fel uchod. Yn ystod yr arferiad ymgysylltu, clywodd y tasglu nad yw pobl yn teimlo bod gwasanaethau iechyd meddwl yn eu cefnogi. Felly, mae'r tasglu wedi ymrwymo i nifer o gamau gweithredu i fynd i'r afael â hyn, gan gynnwys blaenoriaethu'r Cymoedd wrth gyflwyno'r bond llesiant – menter newydd sy'n ceisio cynyddu gweithgarwch corfforol a llesiant meddwl. |
| Namau eraill | X | | | Fel uchod |

### 4.3 Oherwydd eu rhyw (dyn neu fenyw)?

| Rhyw | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Gwryw | X | | | Mae'r gwaith ymgysylltu wedi gweithio gyda'r naill ryw a'r llall, sydd wedi ystyried problemau arbennig megis cyflogaeth a chynyddu mynediad a grymuso dynion trwy rymuso cymunedol. Clywsom hefyd am y problemau penodol sy'n wynebu dynion ifanc sengl a bydd y cynllun yn mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn trwy dai, prentisiaethau a mentrau cyflogaeth. |
| Benyw | X | | | Mae'r gwaith ymgysylltu wedi gweithio gyda'r naill ryw a'r llall, sydd wedi ystyried problemau arbennig i fenywod megis gofal cymdeithasol, gofal plant a chyfleoedd cyflogaeth. |

### 4.4 Oherwydd eu bod yn drawsrywiol?

| Trawsrywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| | X | | | Nod y cynllun yw gweithio gyda sefydliadau trawsrywiol yn y Cymoedd a bydd gwaith ymgysylltu penodol yn cael ei wneud i glywed am unrhyw rwystrau penodol i bobl drawsrywiol yn y Cymoedd. |

**4.5 Oherwydd eu priodas neu bartneriaeth sifil?**

| Priodas a Phartneriaeth Sifil | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Priodas | X | | | Bydd y cynllun yn gweithio gyda phobl o bob cefndir gwahanol. Er na fydd gwaith penodol yn cael ei wneud gyda phobl sy'n briod, bydd manteision lluosog i bobl sy'n briod. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Partneriaeth Sifil | X | | | Bydd y cynllun yn gweithio gyda phobl o bob cefndir gwahanol. Er na fydd gwaith penodol yn cael ei wneud gyda phobl mewn partneriaeth sifil, bydd manteision lluosog i bobl sydd mewn partneriaeth sifil. |

**4.6 Oherwydd eu beichiogrwydd neu famolaeth?**

| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Beichiogrwydd | X | | | Yn ystod y sesiynau ymgysylltu, ni chafodd beichiogrwydd a mamolaeth eu trafod fel materion penodol i gymunedau'r Cymoedd heblaw i nodi'r diffyg gofal plant fforddiadwy sydd ar gael. Fodd bynnag, bydd y cynllun yn ceisio cynyddu cyfleoedd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | cyflogaeth a chynyddu swyddi o ansawdd da, gyda thelerau ac amodau priodol a pholisïau beichiogrwydd a mamolaeth, a fydd yn agor cyfleoedd mynediad i deuluoedd yn y dyfodol. Rydym yn treialu cynnig gofal plant i blant tair oed mewn ardaloedd ar draws y Cymoedd hefyd. Yn ystod y cam nesaf o ymgysylltu byddwn yn edrych ar faterion yn ymwneud â beichiogrwydd a mamolaeth, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau cyflogaeth a gofal iechyd. |
| Mamolaeth (y cyfnod ar ôl geni) | **X** | | | Fel uchod |

**4.7 Oherwydd eu hil?**

| Hil | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys |
|---|---|---|---|---|

| | | | | tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Pobl o leiafrif ethnig e.e. Asiaidd, Du | X | | | Mae tystiolaeth i gefnogi'r ffaith bod pobl mewn cymunedau ethnig yn fwy tebygol o fod mewn tlodi. Trwy gam nesaf y gwaith ymgysylltu byddwn yn gweithio gyda phobl o leiafrifoedd ethnig i ystyried unrhyw rwystrau penodol yn y Cymoedd. Bydd cynyddu cyflogaeth, mynediad i wasanaethau a lles yn cael eu teilwra i ystyried grwpiau penodol. |
| Tarddiad Cenedlaethol (e.e. Cymreig, Seisnig) | X | | | Bydd y cynllun yn ystyried ymatebion penodol i ystyried cefnogi'r Gymraeg trwy ddarpariaeth. Bydd effaith gadarnhaol i bobl o unrhyw genedligrwydd i gynyddu mynediad i gyfleoedd swyddi o safon ac i fynd i'r afael ag amodau gwaith gwael. |
| Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid | X | | | Bydd y cynllun yn ystyried rhwystrau penodol i grwpiau lleiafrifoedd ethnig |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | – fel uchod. |
| Sipsiwn a Theithwyr | X | | | Bydd y cynllun yn ystyried rhwystrau penodol i grwpiau lleiafrifoedd ethnig – fel uchod. |
| Mudwyr | X | | | Bydd y cynllun yn ystyried rhwystrau penodol i grwpiau lleiafrifoedd ethnig – fel uchod. |
| Eraill | | | | |

### 4.8 Oherwydd eu crefydd a'u cred neu ddiffyg cred?

| Crefydd a chred neu ddiffyg cred | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Gwahanol grwpiau crefyddol yn cynnwys Mwslimiaid, Iddewon, Cristnogion, Sikhiaid, Bwdhyddion, Hindŵiaid, Eraill (nodwch) | X | | | Bydd y cynllun yn cynnal gwaith ymgysylltu pellach yn y cam nesaf gyda gwahanol grwpiau crefyddol a ffydd. Bydd hyn yn ystyried unrhyw rwystrau penodol i fynediad at fwy o gyfleoedd swyddi ac yn ystyried unrhyw bryderon am les a mynediad i wasanaethau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cred e.e. Dyneiddwyr | X | | | Fel uchod – bydd y cynllun yn cynnwys ystyried credoau pobl. |
| Diffyg cred | X | | | Fel uchod – bydd y cynllun yn cynnwys ystyried diffyg credoau pobl. |

**4.9 Oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol?**

| Cyfeiriadedd Rhywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Dynion hoyw | **X** | | | Nod y cynllun yw ymgysylltu â chymunedau LGBT yn y Cymoedd ymhellach yn ystod cam nesaf y gwaith ymgysylltu. Bydd hyn yn ystyried rhwystrau penodol ac yn sicrhau bod dulliau a deilliannau yn y cynllun manylach yn gynhwysol. |
| Lesbiaid | **X** | | | Fel uchod |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Deurywiol | **X** | | | Fel uchod |

**4.10 A ydych chi'n credu y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl?** ***Gweler pwynt 1.4 o Atodiad A yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Canllawiau ar ddod o hyd i wybodaeth bellach am Hawliau Dynol.***

| Hawliau Dynol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Hawliau Dynol yn cynnwys Deddf Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig | X | | | Bydd y cynllun yn ystyried effeithiau Hawliau Dynol gyda'r nod o ddiogelu hawliau pobl yn y Cymoedd, gan gynnwys gwella tegwch a chydraddoldeb. |

***Os ydych chi wedi nodi unrhyw effeithiau (ac eithrio rhai dibwys), cadarnhaol neu negyddol, ar unrhyw grŵp â nodweddion gwarchodedig, llenwch Ran 2.***

***Os na cheir unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol, neu os ceir rhai dibwys yn unig, ewch yn syth i Ran 2 a llofnodwch yr Asesiad.***

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhan 2**

**1. Gan adeiladu ar y dystiolaeth a gasgloch ac a ystyriwyd gennych yn Rhan 1, ystyriwch y canlynol:**

| **1.1 Sut y gallai, neu sut y mae'r polisi'n helpu i wella / hyrwyddo cyfle cyfartal?**<br><br>Er enghraifft, mesurau cadarnhaol a luniwyd i fynd i'r afael ag anfantais a chyrraedd gwahanol gymunedau neu grwpiau gwarchodedig? |
|---|
| Bwriedir i waith y tasglu a'r cynllun lefel uchel fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac annhegwch mewn cymunedau ar draws Cymoedd y De trwy hyrwyddo cyfle cyfartal a helpu i adfywio ac ail-adeiladu rhai o'r cymunedau difreintiedig yn y De.<br><br>Nod y cynllun yn benodol yw unioni rhai o'r problemau sy'n ymwneud â diweithdra, cyrhaeddiad addysgol isel a chanlyniadau iechyd gwael – problemau sydd â chysylltiad annatod â'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.<br><br>Bydd y cynllun yn helpu i gefnogi mwy o fynediad at gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, addysg a sgiliau, gofal iechyd a gwasanaethau lles o ansawdd da, gwell trafnidiaeth a seilwaith a bydd yn cefnogi cymunedau ar draws y Cymoedd, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. |
| **1.2 Sut y gallai / sut y mae'r polisi / penderfyniad yn helpu i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu neu erledigaeth?** |

Mae materion fel gwahaniaethu, yn enwedig stigma, wedi cael eu hystyried fel rhan o waith y tasglu wrth ymdrin â'r Cymoedd. Rhan o waith y tasglu yw mynd i'r afael â rhai o'r tybiaethau a wneir am gymunedau'r Cymoedd ac i adeiladu ar agweddau cadarnhaol cymunedau'r Cymoedd.

Rhoddwyd ystyriaeth i faterion penodol hefyd megis gwaith rhan-amser a chontractau dim oriau gan y gwyddom y gallant arwain at arferion gweithio annheg neu wahaniaethu.

**1.3 Sut y gallai / sut y mae'r polisi'n effeithio ar wella / hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?**

Mae'r rhaglen ymgysylltu wedi dangos bod yna gysylltiadau cymunedol cryf yng nghymunedau'r Cymoedd a nod gwaith y tasglu yw adeiladu ar y rhain drwy greu cymunedau mwy llewyrchus a chryfach a meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau yn y gymdeithas a gwahanol sectorau o fewn cymunedau, megis rhwng busnesau a cholegau, rhwng ysgolion a chyflogwyr a rhwng y cenedlaethau iau a hŷn.

## 2. Cryfhau'r polisi

**2.1 Os yw'r polisi'n debygol o gael effaith negyddol (niweidiol) ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig neu ar gysylltiadau da, beth yw'r rhesymau am hyn?**

**Pa newidiadau / camau ymarferol allai helpu i leihau neu gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn Rhan 1?**

Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd y cynllun yn cael effaith negyddol ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig.

**2.2 Os na roddir unrhyw gamau ar waith i ddileu neu liniaru effaith negyddol / niweidiol, rhowch resymau pam.**

**(Cofiwch, os ydych chi wedi canfod gwahaniaethu anghyfreithlon (uniongyrchol neu bosibl) o ganlyniad i'r polisi, rhaid newid neu adolygu'r polisi.)**

Amherthnasol.

**3. Monitro, gwerthuso ac adolygu**

**Sut yr ewch chi ati i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi?**

Rhestrwch fanylion unrhyw waith dilynol sy'n mynd i gael ei gyflawni mewn perthynas â'r polisi (e.e. ymgynghoriadau, monitro penodol ac ati).

Pan gyhoeddir y cynllun cyflawni, bydd cam nesaf y gwaith ymgysylltu yn dechrau 'profi' ein blaenoriaethau, er mwyn gweld sut y byddant yn gweithio'n ymarferol mewn cymunedau gwahanol. Bydd y tasglu yn ceisio grymuso cymunedau i ddatblygu a pherchenogi'r camau gweithredu yn eu cymunedau.

Mae'r cynllun wedi'i ategu gan gyfres o grwpiau ffrwd waith a bwrdd rheoli rhaglen a fydd yn gyfrifol am weithredu'r camau gweithredu yn y cynllun, monitro'r camau gweithredu/blaenoriaethau hyn a chyflwyno adroddiadau arnynt.

Bydd canlyniadau pob asesiad o effaith lle mae'r effaith yn sylweddol yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

**4. Datganiad**

**Nid yw'r polisi'n effeithio'n sylweddol ar faterion cydraddoldeb**

| **Y swyddog sy'n cyflawni'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** |
|---|
| Enw: |
| Laura Evans |
| Adran: |
| Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant, Tîm y Tasglu |
| Dyddiad: |
| 16 Mehefin |
| Llofnod: |
| Laura Evans |
| **Pennaeth Adran (Llofnod)** |
| Enw: |
| Maureen Howell |
| Teitl swydd ac adran: |
| Dirprwy Gyfarwyddwr, Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant |
| Dyddiad: |
| 27 Mehefin 2017 |
| Llofnod: |
| |
| Dyddiad Adolygu:<br>Adolygwyd mis Medi 2017 – i gyd-fynd â chyhoeddi'r cynllun cyflawni.<br>Adolygiad nesaf – mis Gorffennaf 2018. |